

# Agenda

---

09.00 **Cofrestru, Iluniaeth a rhwydweithio**

09.30 **Cymhennu**

09.45 **Prif Araith**  
Mike Palmer, Rheolwr Datblygu Cynaliadwy, Swyddfa Archwilio Cymru

09.45 Sesiwn arddangos lawn

## **Goresgyn materion cyffredin**

Byddwch yn cael cyfle i wyllo cyfarfod bwrdd 'go iawn' ar waith wrth iddynt fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cyffredin mae elusennau'n wynebu yn y cyfnod llym yma. Bydd y themâu o dan sylw yn y sesiwn arddangos lawn yma yn cael ei edrych arno mewn mwy o fanylder yn y gweithdai:

- Llywodraethu da i ddeall a rheoli risgiau
- Cael y bobl iawn o amgylch y bwrdd i arwain a chynghori
- Ffynonellau incwm newydd

10.30 Dewis i fynychu dau o'r gweithdai canlynol:

- **Diogelu eich elusen**

*Nia Morgan a Nia Jones, Comisiwn Elusennau*

Bydd y gweithdy ymarferol yma'n esbonio pam mae'n bwysig i ddiogelu eich elusen a'r camau galliwch gymryd i wneud hynny. Gan ddefnyddio astudiaethau achos go iawn, bydd y gweithdy yn rhoi enghreifftiau clir o sut i ddiogelu'ch enw da, eich cyllid a buddiolwyr eich elusen.

- **Cael y bobl iawn o amgylch y bwrdd i arwain eich mudiad**

*Anna Bezodis, WCVA a Alex Swallow, Ymddiriedolwyr Elusennau Ifanc*

Mae cael y bobl iawn o amgylch eich bwrdd o ymddiriedolwyr yn hanfodol i'w lwyddiant yn y tymor hir, ac mae cynllunio olyniaeth yn elfen allweddol o ran cyflawni hynny. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi

enghreifftiau ymarferol o'r hyn y gallwch ei wneud i sicrhau bod eich bwrdd yn adlewyrchu'r cyfeiriad mae eich mudiad yn cymryd.

- **Ffynonellau incwm newydd ac amgen posibl**  
*Sara Powell-Davies, Renewable UK Cymru a Nick Venti, Cronfa Bancio Gymunedol Robert Owen*  
Mae ffynonellau incwm traddodiadol yn cael eu torri neu eu gostwng yn sylweddol. Bydd y gweithdy yma'n dangos ffynonellau posibl o incwm a sut i'w cyrchu.

11.30	Te a choffi
11:45	Ail gyfle i fynychu un o'r gweithdai uchod
12.45	'Galwad i Weithredu' y cynrychiolwyr – sesiwn lawn
13.00	Bwffe a rhwydweithio